YSGOL ABERCONWY

## Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

# Athro/Athrawes Cerddoriaeth

## Rhan-amser (0.5call/fte)
## Dyddiad cychwyn : Medi 2025
## Manylion cyflog : Prif Raddfa/Graddfa Uchaf



# Croeso gan y Pennaeth

Yn gyntaf hoffwn ddiolch i chi am eich diddordeb yn swydd Athro/Athrawes Cerddoriaeth yn Ysgol Aberconwy. Pwrpas y pecyn gwybodaeth hwn yw eich helpu i ddysgu mwy am ein hysgol ac i benderfynu ai dyma'r swydd iawn i chi.

Mae Ysgol Aberconwy yn ysgol sy'n rhoi dysgu a chyflawniad unigol wrth graidd popeth a wnawn. Rydym am i bob myfyriwr lwyddo; i gyflawni eu llawn botensial, paratoi at y dyfodol a datblygu'n bobl ifanc hyderus, meddylgar fel eu bod yn ein gadael yn barod am heriau byd cyffrous a chynyddol gystadleuol. Mae'r athroniaeth hon hefyd yn ymestyn i staff yr ysgol – rydym yn ceisio bod yn sefydliad dysgu sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad pob unigolyn sydd ynddo drwy hyfforddi, herio a chefnogi.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn lleoliad ysblennydd ar foryd Conwy, ac yn ymfalchïo yn ei hamgylchedd modern, sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n i safon uchel ac yn cynnig adnoddau ardderchog. Mae ethos yr ysgol wedi'i seilio ar werthoedd traddodiadol, sef parch, cyfrifoldeb ac ysbryd cymunedol, ac mae myfyrwyr yn profi'r dechnoleg a'r dulliau addysgu diweddaraf yn yr ystafell ddosbarth.

Yma yn Ysgol Aberconwy mae gennym y disgwyliadau uchaf o'n holl fyfyrwyr ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae safonau academaidd yn bwysig i ni a disgwyliwn i bob disgybl gyflawni'r gorau. Mae gennym hefyd y disgwyliadau uchaf o'n myfyrwyr o ran ymddygiad, presenoldeb, prydlondeb a gwisg ysgol.

Mae system fugeiliol Ysgol Aberconwy yn eang ac yn arloesol. Mae gan bob grŵp blwyddyn Fentor Arweiniol llawn amser nad yw'n addysgu. Mae'r mentoriaid hyn yn gweithio o ganolfan cyfnod allweddol ac ar gael drwy'r dydd i ymateb i bryderon disgyblion ac i ddarparu pwynt cyswllt uniongyrchol i rieni.

Mae gennym raglen allgyrsiol lwyddiannus iawn sy'n cynnwys ystod lawn o weithgareddau chwaraeon yng nghyfleusterau newydd ac arloesol yr ysgol, yn ogystal â chyngherddau cerddorol a chyflwyniadau drama. Mae gan yr ysgol ei chanolfan maes ei hun yn y bryniau uwchlaw Abergwyngregyn, gyda rhaglen eang o weithgareddau awyr agored.

Rydym hefyd yn ymfalchïo yn ein traddodiad a'n hetifeddiaeth Gymreig. Mae'r ysgol yn annog defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn a thu allan i wersi, ac rydym yn datblygu ein gallu i ddarparu rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r sawl sy'n dymuno hynny.

Rydym yn ffodus iawn i gael tîm o athrawon a staff cynorthwyol ymroddedig a phroffesiynol iawn sy'n disgwyl y safonau uchaf gan eu disgyblion, ac ar yr un pryd mae systemau cadarn yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar lle mae athrawon yn addysgu a dysgwyr yn dysgu.

Mae Ysgol Aberconwy yn lle gwych i weithio. Mae'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu ac yn ymroddedig i les ein dysgwyr. Mae gennym y disgwyliadau uchaf gan bawb sy'n gweithio yma ac felly rydym yn chwilio am y staff gorau i weithio gyda'n myfyrwyr. Gwyddom mai safon ein staff sy'n pennu safon ein hysgol. Os hoffech weld drosoch eich hun pam ein bod yn credu bod Ysgol Aberconwy yn lle gwych i weithio, mae croeso i chi gysylltu â ni i drefnu ymweliad.



# Ian Gerrard

# Gwybodaeth Ychwanegol am yr ysgol

Yn ystod eu hymweliad â'r ysgol ym mis Mawrth 2018, nododd ESTYN:

- Mae disgyblion yn mynegi eu syniadau a'u barn yn hyderus y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth gyda'r mwyafrif yn cyfrannu'n frwdfrydig i drafodaethau dosbarth neu grŵp.
- Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf uwchlaw perfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg.
- Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u targedau personol.
- Mae ethos cynhwysol a chefnogol yr ysgol, sy'n seiliedig ar barch ar y ddwy ochr, yn llwyddiannus o ran hyrwyddo lefelau uchel o les disgyblion.
- Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio.
- Mae disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr.
- Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu.
- Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gymryd rhan yn rhaglen werthfawr yr ysgol o weithgareddau diwylliannol a chreadigol, gan gynnwys cynyrchiadau cerddorol a drama.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Maent yn cyfrannu'n llwyddiannus at godi symiau sylweddol o arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y gymuned leol ac yn ehangach.
- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbws sy'n adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn bodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion.
- Ceir ystod eang o weithgareddau chwaraeon, creadigol a diwylliannol sy'n cefnogi dysgu disgyblion ac yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad personol.
- Ceir dull cydlynus o ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gynnal a datblygu eu medrau iaith.
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo cymuned gynhwysol, gefnogol a meithringar yn llwyddiannus, sydd wedi cael effaith fuddiol sylweddol ar les a datblygiad personol disgyblion. Mae newidiadau diweddar i drefniadau bugeiliol yr ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at hyrwyddo lles disgyblion.
- Mae darparu cyfleoedd i ddisgyblion leisio eu barn yn gryfder gan yr ysgol. Mae gan ddisgyblion rôl werthfawr ym mywyd a gwaith yr ysgol.
- Mae arweinyddiaeth a rheolaeth ar bob lefel wedi ysgogi gwelliannau mewn meysydd allweddol o waith yr ysgol. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir, gefnogol a phendant sy'n cyfrannu'n dda at wella agweddau allweddol ar waith yr ysgol.
- Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac maent wedi hyrwyddo gweledigaeth glir yn llwyddiannus ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar y genhadaeth 'ysbrydoli, cefnogi a llwyddo.'
- Defnyddir staff yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth ac mewn meysydd arbenigol.
- Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd pleserus a chroesawgar sy'n cael ei gynnal yn dda ac yn cefnogi lles a dysgu disgyblion yn dda. Mae adnoddau da mewn ardaloedd arbenigol, fel labordai gwyddoniaeth a gweithdai technoleg.

# Gwybodaeth am yr ardal leol

Tref ac Ardal Conwy

Mae Conwy yn dref sy'n gyfoeth o hanes, llawer ohono wedi'i ddiogelu gan y waliau ac adeiledd traddodiadol ei hadeiladau. Wrth ei chraidd mae'r castell cadarn o'r $13^{eg}$ ganrif, y mae ei furiau'n amgáu'r dref ganoloesol hynod hon.

Wedi'i amgylchynu gan gefn gwlad hardd Cymru a than wyliadwriaeth mynyddoedd cadarn Eryri, mae'n lle hyfryd i ymweld ag ef neu i fyw ynddo. Mae'r Cei yn gartref i lawer o gyfleusterau ac yn lle arbennig o drawiadol i ymweld ag ef yn ystod misoedd cynnes yr haf. P'un a yw'n well gennych fwynhau lletygarwch bwytai lleol, mynd ar daith cwch gyffrous o amgylch yr ardal arfordirol neu fynd am dro ar y mynyddoedd cyfagos – mae'r cwbl yn bosibl yn nhref hanesyddol Conwy a'r cyffiniau.

Mae Conwy yn cynnig amrywiaeth o lefydd i fwyta ac yfed. Gellir dod o hyd i fwytai ciniawa coeth, tafarndai traddodiadol a chaffis clyd ledled y dref. Mae yno hefyd nifer o westai a llety gwely a brecwast – llawer ohonynt yn agos iawn at y castell ei hun. Gyda'i hymddangosiad traddodiadol a henaidd, gallech gredu bod y drefn hon yn anodd ei chyrraedd. Mae ychydig dros awr o yrru oddi wrth ddau faes awyr pwysig – Lerpwl a Manceinion – ac mae'n hawdd ei chyrraedd ar drên. Mae hefyd yn werth ymweld â gweddill Sir Conwy, sy'n cynnwys trefi arfordirol trawiadol.

Mae Llandudno wedi cadw ei swyn traddodiadol a dilys. Mae gan y dref wyliau glan môr Fictoraidd hon lawer i'w gynnig i ymwelwyr. Ewch am dro hamddenol ar hyd ei rhodfa, neu i gopa'r Gogarth Fawr lle cewch eich gwobrwyo â golygfeydd syfrdanol o'r mynyddoedd cyfagos a'r trefi arfordirol.

Fe welwch hefyd fod Conwy yn ymfalchïo yn ei diwylliant a'i hanes, ac yn aml yn cynnal nifer o ddigwyddiadau diwylliannol drwy gydol y flwyddyn. Bob blwyddyn, fe welwch gyfoeth o wyliau, orielau celf a marchnadoedd lleol, sy'n cael eu cynnal yn bennaf er mwyn cefnogi ac arddangos eu talent a'u cynnyrch lleol.

Os ydych chi'n chwilio am rywle i grwydro sy'n llawn antur ac sydd hefyd wedi llwyddo i gynnal ei gyfoeth hanesyddol o fewn ei waliau a'i adeiladau, mae Conwy yn cynnig hyn oll a mwy i'w hymwelwyr (a'i thrigolion).

(http://www.conwy.com/)







# Hysbyseb Swydd

**O fis Medi 2025 bydd angen : Athro/Athrawes Cerddoriaeth**

**Mae hon yn swydd barhaol, rhan-amser (0.5call).**

**Cyflog : Prif Raddfa/Graddfa Uchaf Cyflog i Athrawon - £16,216-£24,970**

**Dyddiad Cau: Dydd Llun 6ed Mai 2025**

Rydym yn awyddus i benodi Athro/Athrawes Saesneg brwdfrydig a llawn cymhelliant gyda'r gallu i ddysgu hyd at lefel TGAU, ar gyfer Medi 2025. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn athro rhagorol yn y lle cyntaf sy'n arwain drwy esiampl ac yn cefnogi'r gyfadran yn ei chais i gyflawni ei thargedau uchelgeisiol. Rydym yn annog ceisiadau gan athrawon gydag unrhyw brofiad sy'n teimlo y gallant ychwanegu gwerth i gyfadran sydd eisoes yn effeithiol iawn a ffynnu mewn amgylchedd dynamig a brwdfrydig.

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus:

- Fod yn athro Saesneg/ANG gydag ymarfer dosbarth sy'n 'Dda' neu'n 'Rhagorol' yn gyson
- Fod yn eiriolwr brwd dros y pwnc sy'n cyfrannu'n effeithiol i welliannau adrannol ac ysgol gyfan
- Allu addysgu ar draws yr ystod oedran a'r ystod gallu lawn rhwng 11-16 oed.
- Fod yn awyddus iawn i fod yn Athro Dosbarth cefnogol
- Ddangos gallu ac awydd i wneud cyfraniad llawn i fywyd yr ysgol
- Fod â disgwyliadau uchel ohonynt hwy eu hunain ac eraill
- Fod yn gyfathrebwr da gyda sgiliau rhyngbersonol rhagorol
- Fod yn hyblyg ac yn aelod da o dîm

Yn gyfnewid rydym yn cynnig:

- Ymrwymiad cryf i ddatblygiad proffesiynol;
- Ysgol â dyheadau uchel a chyfle gwirioneddol i wneud gwahaniaeth;
- Cyfle i helpu i lywio addysgu a dysgu a'n cwricwlwm amgen;
- Tîm ymroddedig a chefnogol o staff proffesiynol a llywodraethwyr ;
- Cysylltiadau cryf ag ysgolion lleol eraill ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chefnogaeth;
- Ysbryd cymunedol cryf;
- Lle bywiog a diddorol i weithio ynddo.

Mae'n gyfnod cyffrous i ymuno ag Ysgol Aberconwy, ysgol gyfun gymysg sy'n cynnwys mwy na 1000 o ddisgyblion 11 i 18 oed. Mae campws newydd, eang yr ysgol wedi'i leoli ar lannau prydferth Afon Conwy, yn nhref ganoloesol Conwy, sydd ar arfordir Gogledd Cymru ac yn agos iawn i Barc Cenedlaethol Eryri. Fel ysgol MCP mae safon ein hadnoddau a'n gwaith cynnal a chadw yn eithriadol o dda ac rydym wedi datblygu enw da iawn yn lleol am ansawdd ein gofal bugeiliol yn ogystal â'n llwyddiant academaidd. Bydd niferoedd yr ysgol wedi codi 30% dros y pum mlynedd diwethaf ym mis Medi, ac rydym wedi datblygu canolfannau adnoddau arbenigol i gefnogi plant â dyslecsia, awtistiaeth ac anghenion dysgu eraill.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Enw'r Swydd:** | Athro/Athrawes Cerddoriaeth |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas:** | • I roi ar waith a chyflwyno cwricwlwm sy'n eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol mewn ffordd sy'n briodol i ddisgyblion, a chefnogi maes cwricwlwm dynodedig fel y bo'n briodol.<br>• I fonitro a chefnogi cynnydd a datblygiad cyffredinol disgyblion fel Athro/Tiwtor Dosbarth.<br>• I hyrwyddo ac annog profiad dysgu sy'n rhoi'r cyfle i bob disgybl gyflawni eu llawn botensial.<br>• I gyfrannu at godi safon cyrhaeddiad disgyblion.<br>• I rannu a chefnogi cyfrifoldeb yr ysgol dros ddarparu a monitro cyfleoedd ar gyfer cynnydd personol ac academaidd.<br>• Ychwanegu gwerth i'r adran a'r ysgol yn gyffredinol. |

| | |
|---|---|
| **Yn atebol i:** | Pennaeth Pwnc. |

| | |
|---|---|
| **Yn gyfrifol dros:** | Darparu profiad dysgu llawn a chefnogaeth i ddisgyblion. |

| | |
|---|---|
| **Cysylltu â:** | Pennaeth/TA, staff cefnogi addysgu, cynrychiolwyr AALl, asiantaethau allanol a rhieni. |

| | |
|---|---|
| **Cyfnod gwaith:** | Rhan-amser (0.5call) |

| | |
|---|---|
| **Lefel Datgeliad:** | Manwl |

**PRIF DDYLETSWYDDAU (CRAIDD)**

| | |
|---|---|
| **Cynllunio Gweithredol/ Strategol:** | • I gynorthwyo i ddatblygu meysydd llafur, adnoddau, cynlluniau gwaith, polisïau marcio a strategaethau addysgu yn y Maes Cwricwlwm perthnasol.<br>• I gyfrannu at gynllun datblygu'r Maes Cwricwlwm a chynorthwyo i'w roi ar waith.<br>• I gynllunio a pharatoi cyrsiau a gwersi ar gyfer CA3 a CA4.<br>• I gyfrannu at weithgareddau cynllunio'r ysgol gyfan.<br>• I gydymffurfio â pholisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol a chyflawni asesiadau risg fel bo'n briodol.<br>• I fynychu a chyfrannu i gyfarfodydd staff a chyfarfodydd briffio. |
| **Darpariaeth Cwricwlwm:** | • I gynorthwyo'r Pennaeth Pwnc a'r TA er mwyn sicrhau bod y maes cwricwlwm yn darparu ystod o addysgu sy'n ategu amcanion strategol yr ysgol. |
| **Datblygiad Cwricwlwm:** | • I gynorthwyo'r broses o ddatblygu a newid y cwricwlwm er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol i anghenion disgyblion, cyrff arholi a dyfarnu ac amcanion yr ysgol. |
| **Datblygiad Staff:** | • I gymryd rhan yn y rhaglen datblygu staff drwy gyfranogi mewn trefniadau ar gyfer hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pellach.<br>• I ddangos tystiolaeth o ddatblygiad personol parhaus mewn meysydd perthnasol gan gynnwys gwybodaeth am bwnc a dulliau addysgu.<br>• I ymgysylltu'n weithredol â'r broses Adolygu Rheoli Perfformiad.<br>• I sicrhau defnydd effeithiol/effeithlon o gefnogaeth yn y dosbarth.<br>• I weithio fel aelod o dîm dynodedig ac i gyfrannu'n bositif i berthnasau gweithio effeithiol o fewn yr ysgol. |

| | |
|---|---|
| **Sicrwydd Ansawdd:** | • I helpu i roi gweithdrefnau ansawdd ysgol ar waith ac i lynu wrthynt.<br>• I gyfrannu at y broses o fonitro a gwerthuso'r maes cwricwlwm yn unol â gweithdrefnau ysgol cytunedig, gan gynnwys gwerthuso yn erbyn safonau ansawdd a meini prawf perfformiad. I geisio sicrhau/rhoi ar waith addasiadau a gwelliannnau lle bo angen hynny.<br>• I adolygu, o bryd i'w gilydd, ddulliau o addysgu a rhaglenni gwaith.<br>• I gymryd rhan, yn ôl y gofyn, yn adolygiad, datblygiad a rheolaeth gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, trefniadaeth a swyddogaethau bugeiliol yr ysgol. |
| **Gwybodaeth am Reoli:** | • I gadw cofnodion interim a blynyddol priodol a darparu gwybodaeth fanwl gywir, berthnasol a diweddar ar gyfer cronfa ddata'r ysgol.<br>• I gwblhau'r ddogfennaeth berthnasol er mwyn cynorthwyo i dracio myfyrwyr.<br>• I dracio cynnydd myfyrwyr a defnyddio'r wybodaeth i lywio addysgu a dysgu. |
| **Cyfathrebu:** | • I gyfathrebu'n effeithio gyda'r rhieni a'r disgyblion fel bo'n briodol.<br>• Lle bo'n briodol, i gyfathrebu a chydweithio â phobl neu gyrff y tu allan i'r ysgol.<br>• I ddilyn polisiau cytunedig ar gyfer cyfathrebu yn yr ysgol. |
| **Hyrwyddo a Chysylltu:** | • I gymryd rhan mewn gweithgareddau hyrwyddo a chysylltu fel Nosweithiau Agored, Nosweithiau Rhieni, Noson Opsiynau a digwyddiadau cyswllt gydag ysgolion partner.<br>• I gyfrannu at ddatblygiad cysylltiadau cwricwlwm effeithiol ag asiantaethau allanol.<br>• I gyfrannu at weithgareddau pontio gydag ysgolion partner a darparwyr.<br>• I chwarae rhan lawn yng nghymuned yr ysgol, i gefnogi ei chenhadaeth a'i hethos nodedig ac i annog staff a disgyblion i ddilyn yr esiampl hon.<br>• I hyrwyddo polisïau corfforaethol yr ysgol mewn ffordd weithredol. |
| **Rheoli Adnoddau:** | • I gyfrannu i'r broses o archebu a dosbarthu offer a defnyddiau.<br>• I gynorthwyo'r Pennaeth Pwnc i adnabod anghenion am adnoddau ac i gyfrannu at ddefnydd effeithiol/effeithlon o adnoddau ffisegol.<br>• I gydweithio â staff eraill er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rhannu a'u defnyddio'n effeithiol er budd yr Ysgol a'r disgyblion. |
| **System Fugeiliol:** | • I fod yn Diwtor Dosbarth i grŵp neilltuol o ddisgyblion.<br>• I hyrwyddo cynnydd a lles cyffredinol disgyblion unigol a'r grŵp Tiwtor Dosbarth cyfan.<br>• I gysylltu â'r Tîm Bugeiliol i sicrhau bod System Fugeiliol yr ysgol yn cael ei rhoi ar waith.<br>• I gofrestru disgyblion, mynd gyda hwy i wasanaethau, eu hannog i ddod i bob gwers a chymryd rhan mewn agweddau eraill ar fywyd yr ysgol.<br>• I werthuso a monitro cynnydd disgyblion a chadw cofnodion cyfredol am ddisgyblion yn ôl y gofyn.<br>• I gyfrannu at baratoi Cynlluniau Gweithredu a ffeiliau cynnydd ac adroddiadau eraill.<br>• I dynnu sylw'r staff priodol at broblemau y mae disgyblion yn eu profi ac i wneud argymhellion ynglŷn â sut i'w datrys.<br>• I gyfathrebu fel bo'n briodol â rhieni disgyblion a phersonau neu gyrff allanol sy'n gysylltiedig â lles disgyblion unigol, ar ôl ymgynghori â'r staff priodol.<br>• I gyfrannu i AIBC yn unol â pholisi'r ysgol.<br>• I gefnogi'r ysgol yn ei hymgais i gwrdd â gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli.<br>• I weithredu'r systemau Rheoli Ymddygiad fel y gall disgyblion ddysgu'n effeithiol. |

| | |
|---|---|
| **Addysgu:** | • I addysgu disgyblion yn ôl eu hanghenion addysgol gan gynnwys gosod a marcio gwaith a gyflawnir gan ddisgyblion yn yr ysgol a thu allan iddi.<br>• I asesu, cofnodi ac adrodd ar bresenoldeb, cynnydd, datblygiad a chyrhaeddiad disgyblion a chadw'r cofnodion angenrheidiol.<br>• I ddarparu, neu gyfrannu at asesiadau llafar ac ysgrifenedig, adroddiadau a thystlythyrau yn ymwneud â disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion.<br>• I sicrhau bod TGCh, Llythrennedd, Cwricwlwm Cymraeg, Rhifedd ac arbenigedd(au) pwnc ysgol yn cael eu hadlewyrchu ym mhrofiad addysgu/dysgu'r disgyblion.<br>• I ymgymryd â rhaglen ddynodedig o addysgu.<br>• I sicrhau profiad dysgu i fyfyrwyr sydd o ansawdd uchel ac yn bodloni safonau ansawdd mewnol ac allanol.<br>• I bararoi a diweddaru deunyddiau pwnc.<br>• I ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyflwyno a fydd yn symbylu dysgu sy'n briodol i anghenion disgyblion a gofynion y maes llafur.<br>• I gynnal disgyblaeth yn unol â gweithdrefnau'r ysgol ac i annog arfer da mewn perthynas â phrydlondeb, ymddygiad, gwisg ysgol, safonau gwaith a gwaith cartref.<br>• I asesu disgyblion yn ôl gofynion cyrff arholi allanol, a gweithdrefnau pwnc ac ysgol.<br>• I farcio, graddio a rhoi adborth ysgrifenedig/llafar a diagnostig yn ôl yr angen. |
| **Pwnc Benodol (Cymraeg)** | • I fod ag angerdd a brwdfrydedd dros yr Iaith Gymraeg a'i thraddodiadau, a'r gallu i ennyn brwdfrydedd myfyrwyr yn y dosbarth ac yn ystod gweithgareddau ysgol gyfan e.e. eisteddfod yr ysgol, yr Wythnos Gymraeg<br>• Byddai'r gallu i addysgu Cymraeg fel Iaith Gyntaf yn fanteisiol. |

Er y gwnaed pob ymdrech i esbonio prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, mae'n bosibl na nodwyd pob tasg unigol y bydd angen eu cyflawni.

Disgwylir i weithwyr gydymffurfio â phob cais rhesymol gan reolwyr i ymgymryd â gwaith ar lefel debyg nad yw wedi'i grybwyll yn y disgrifiad swydd hwn, ac yn arbennig unrhyw ddyletswydd arall a nodir gan STPCD nas crwybwyllir uchod.

Disgwylir i weithwyr fod yn gwrtais i gydweithwyr a bod yn groesawgar i ymwelwyr a'r sawl sy'n cysylltu â'r ysgol drwy ffonio.

Bydd yr ysgol yn ymdrechu i wneud unrhyw addasiadau rhesymol angenrheidiol i'r swydd a'r amgylchedd gwaith er mwyn sicrhau cyfleoedd gwaith i ymgeiswyr anabl neu barhad cyflogaeth i unrhyw weithiwr sy'n datblygu cyflwr sy'n anablu.

Nid yw'r disgrifiad hwn o reidrwydd yn ddiffiniad cynhwysfawr. Ar ôl ymgynghori â chi, gallai'r Rheolwyr ei newid i adlewyrchu neu ragweld newidiadau yn y swydd sy'n gymesur â'r cyflog ac enw'r swydd.

# Penodol i'r Unigolyn

| Ffactor | Gofynion | Tystiolaeth | Pwysigrwydd<br>H: Hanfodol<br>D: Dymunol |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth & Sgiliau | Gradd Anrhydedd Dda & chyflawniad SAC | FfG/Gw | H |
| | Addysgu Cerddoriaeth ar draws yr ystod gallu yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 | FfG | H |
| | Addysgu Cerddoriaeth ar draws yr ystod gallu yng Nghyfnod Allweddol 5 | FfG | D |
| | Unplygrwydd personol a'r ysfa i wneud yr hyn sydd orau i'r myfyrwyr | G/C | H |
| | Gallu i weithio'n galed iawn dan bwysau | FfG/G | D |
| | Profiad profedig o adnabod ac ateb anghenion grwpiau o fyfyrwyr | FfG/G/C | D |
| | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiadau diweddar ym myd dysgu ac addysgu mewn perthynas â phynciau a ddysgir o fewn y gyfadran | FfG/G/C | H |
| | Parodrwydd i gyfrannu i raglen allgyrsiol | FfG/G/C | D |
| | Brwdfrydedd dros ddatblygu pedagogeg a strategaethau dysgu i ddysgu | FfG/G/C | D |
| Creadigrwydd & Dyfeisgarwch | Sgiliau cyfathrebu rhagorol – ysgrifenedig ac ar lafar | FfG/C | H |
| | Synnwyr digrifwch a'r hyblygrwydd i addasu arferion gweithio ar gyfer heriau a mentrau newydd | FfG/G/C | H |
| | Brwdfrydedd diderfyn ac agwedd bositif | FfG/G/C | H |
| | Gallu i ennyn brwdfrydedd, ysbrydoli a datblygu myfyrwyr | FfG/G/C | H |
| Cysylltiadau & Perthnasau | Mwynhad gwirioneddol wrth weithio gyda phobl ifainc | FfG/G/C | H |
| | Dealltwriaeth o, ac ymrwymiad i gynhwysiad i bawb | FfG/G/C | H |
| | Ymrwymiad i ragoriaeth a'r gallu i arwain drwy esiampl, o ran addysgu a dysgu | FfG/G/C | H |
| | Ymrwymiad i weithio fel aelod o dîm | FfG/G/C | H |
| | Sgiliau rhyngbersonol rhagorol a gallu i gyfathrebu'n effeithiol, gyda staff, myfyrwyr, asiantaethau allanol a'r cyhoedd. | G/C | H |
| Penderfyniadau/ Argymhellion | Gallu i wneud penderfyniadau annibynnol o fewn fframwaith amcanion gytunedig. | G/C | H |
| | Gallu i gyfrannu i drafodaethau arweinwyr a'r broses o wneud penderfyniadau. | G | D |
| Adnoddau | Gallu i reoli adnoddau'n effeithiol | FfG/G/C | D |

FfG: Ffurflen Gais    C: Cyfweliad    G: Geirda    Gw: Gwiriad

# Gweithdrefnau Diogelu

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Gan gofio hyn, hoffem dynnu eich sylw at y materion canlynol:

1. Gwneir pob penodiad yn amodol ar y canlynol:
   a. Gwiriadau GDG manwl;
   b. Gwiriadau o statws proffesiynol (CGA; QTS ayyb.)
   c. Cadarnhad o gymwysterau proffesiynol;
   d. Derbyn geirdaon cryf (os na chawsant eu derbyn erbyn y cyfweliad);
   e. Cliriad meddygol

2. Rydym ond yn derbyn ceisiadau a gwblhawyd ar ffurflen gais Conwy gyda llythyr eglurhaol. Os gwelwch yn dda, peidiwch â gyrru CV neu dystebau agored. Ceir mwy o fanylion am gynnwys ceisiadau yn y pecyn hwn isod.

3. Sicrhewch fod y ffurflen gais wedi'i llenwi'n llawn. Yn benodol, rhaid i chi sicrhau bod hanes gwaith llawn yn cael ei ddarparu a bod unrhyw fylchau yn eich cyflogaeth yn cael eu hesbonio'n llawn.

4. Rhaid i'r canolwyr y cyfeirir atynt yn eich ffurflen gais gynnwys eich cyflogwr o'r tro diwethaf y buoch yn gweithio gyda phlant. Os oedd eich cyflogaeth ddiwethaf mewn ysgol, byddem yn disgwyl geirda gan y Pennaeth a/neu'r Dirprwy / Pennaeth Cynorthwyol

5. Wrth geisio geirda, byddwn yn gofyn am wybodaeth am eich addasrwydd i weithio gyda phlant.

6. Os ydych ar y rhestr fer, bydd unrhyw anghysonderau yn eich cais yn cael eu trafod gyda chi yn y cyfweliad.

*Rydym yn eich annog i roi sylw manwl i'r materion hyn fel na chaiff eich cais ei ddiystyru yn ddiangen.*

# Gweithdrefnau Gwneud Cais

Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer y swydd hon, dylech lenwi'r ffurflen gais, gan roi enwau a chyfeiriadau dau ganolwr.

Sylwer y dylai adran 12 ar y ffurflen (Gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch cais) y gellir ei llenwi ar ddalen ar wahân os yw'n well gennych, gynnwys y wybodaeth ganlynol:

a. Amlinelliad byw o'r hyn yr ydych wedi ei gyflawni yn eich swydd bresennol
b. Datganiad am pam rydych chi eisiau'r swydd hon.
c. Mynegiad o'r cryfderau a'r arbenigedd y gallech eu cynnig i'r ysgol.

Dylai pob pwynt fynd i'r afael â'r manylion yn y fanyleb person a phwyntiau eraill a wneir yn y pecyn gwybodaeth hwn.

Gofynnir yn garedig i ymgeiswyr beidio â chyflwyno CV yn lle ffurflen gais. Gellir atodi dalennau ychwanegol wrth y ffurflen gais os nad oes digon o le.

Dylid dychwelyd ceisiadau wedi'u cwblhau at Mr Ian Gerrard (Pennaeth) d/o Lynn Jones, i gyrraedd **erbyn canol dydd fan bellaf Dydd Mawrth Mai 6ed.**

Sicrhewch eich bod yn rhoi'r tâl postio cywir ar yr amlen gan y gallai hyn olygu na fydd eich cais yn cael ei ystyried oherwydd ei fod wedi cyrraedd yn hwyr. Noder y byddwn ond yn ystyried ceisiadau a gyflwynir ar ffurflen gais Conwy.

Cynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau **Dydd Llun Mai 12fed**. Os na fyddwch wedi clywed gennym o fewn pythefnos i'r dyddiad hwn, yn anffodus mae'n rhaid i chi dybio bod eich cais wedi bod yn aflwyddiannus y tro hwn, ac os felly, hoffai'r Llywodraethwyr ddiolch i chi am eich amser a'ch diddordeb yn yr ysgol.

Sylwer ein bod yn hapus i drefnu ymweliadau anffurfiol ar gyfer darpar ymgeiswyr cyn i'r rhestr fer gael ei llunio, hefyd os ydych am gael trafodaeth anffurfiol am y swydd cyn gwneud cais, neu os oes angen rhagor o fanylion arnoch, cysylltwch â Lynn Jones, Cynorthwyydd Personol y Pennaeth.

**Ffôn: 01492 593243**
E-bost: lynn.jones@aberconwy.conwy.sch.uk